



21 Ionawr 2010

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Ymchwiliad i Greu Swyddi yn yr Economi Werdd

Papur cyflwyno gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, Ionawr 2010

Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymchwiliad hwn gan fod datblygu economi gynaliadwy yn elfen bwysig o'n gwaith.

Yn ogystal â'r ymateb hwn, hoffai'r Comisiwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y dogfennau canlynol:

1. Adroddiadau'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 'Prosperity Without Growth?'ⁱ, 'Bargen Newydd Gynaliadwy'ⁱⁱ a 'Cymru Carbon Isel'ⁱⁱⁱ
2. Ymateb y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ei strategaeth swyddi gwyrdd ddrafft^{iv}

Crynodeb

Croesawodd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy strategaeth swyddi gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ei hystyried yn gyfraniad pwysig i'r broses yng Nghymru o newid i fod yn economi gynaliadwy fwy gwydn; gan gyflawni nod allweddol cynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad Cymru'n Un: *Cenedl Un Blaned*.

Mae achosion cynyddol o adnoddau naturiol yn lleihau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith fawr ar yr economi a bywydau pobl; effaith sydd wedi'i gwaethygu gan y dirwasgiad ac y disgwylir iddi fynd yn waeth dros amser, wrth i ni wynebu diwedd cyfnod olew rhad.

Mae'r Comisiwn o'r farn bod yn rhaid gweithredu yn awr i sicrhau bod Cymru yn cynyddu gallu ei heconomi i wrthsefyll y bygythiadau hyn yn y dyfodol, fel y gall yr economi ymdopi ag ysgytwadau amgylcheddol ac economaidd yn well mewn ffordd nad yw'n ychwanegu at anghydraddoldeb nac yn mynd y tu hwnt i derfynau ecolegol.

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy o'r farn bod strategaeth swyddi gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfraniad pwysig i'r broses o sicrhau bod economi Cymru yn fwy gwydn.

Ymhlith y materion allweddol i Gymru mae:

- Gwireddu'r weledigaeth o economi fwy cynaliadwy a nodwyd yn y strategaeth swyddi gwyrdd; trosi'r uchelgais yn ganlyniadau mesuradwy gwirioneddol sy'n diogelu swyddi presennol ac yn creu rhai newydd
- Datblygu diffiniad clir o ystyr 'swydd werdd', gan ystyried ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a'r cyfraniad i gymdeithas gref, cyfiawn ac iach (gweler adran 2.3 o ymateb y Comisiwn i'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru)
- Nodi a gwneud y newidiadau angenrheidiol i ddatblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol yng nghamau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â swyddi a'r economi
- Manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y galw byd-eang am gynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy
- Sicrhau potensial mwyaf y sector addysg uwch yng Nghymru i ddenu busnesau cynaliadwy a darparu cyflogaeth
- Sicrhau bod Cymru, yn ei hymdrech i wella o'r dirwasgiad, yn ystyried tueddiadau a risgiau hirdymor yn y dyfodol ac yn paratoi ar eu cyfer drwy fuddsoddi mewn meysydd megis ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth gynaliadwy ac effeithlonrwydd ynni cartrefi
- Defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i sicrhau y caiff gwariant cyhoeddus yr effaith fwyaf, fel bod gwariant sy'n cefnogi swyddi gwyrdd yn gwella iechyd a'r amgylchedd ac yn lleihau anghydraddoldeb
- Defnyddio prosesau caffael a chyllid yr UE i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy

Pwyntiau penodol a godwyd gan y pwyllgor

Cyfleoedd i arloesi a gweithgynhyrchu ym maes technolegau nad ydynt yn rhai carbon yng Nghymru, a rôl gysylltiedig y sector Addysg Uwch.

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn cydnabod y rhan bwysig iawn y mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn ei chwarae o ran darparu'r sgiliau a'r technolegau y bydd eu hangen arnom er mwyn sicrhau dyfodol carbon isel, gwydn. Mae'r Comisiwn yn falch o weld y caiff y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel (LCRI) ei ariannu yn hyn o beth. Ceir cyfleoedd pellach i ehangu'r cydweithredu rhwng y sector addysg uwch yng Nghymru a busnesau; yng Nghymru drwy greu fforwm partneriaeth, yn seiliedig ar fodolau a gynigir gan y Fforwm Busnes Cynaliadwy neu Gyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy; ac yn rhyngwladol gyda chydweithredu pellach â Busnes Rhyngwladol Cymru a Techniwm Cymru.

Mae'r Ganolfan Ynni Morol Ewropeaidd yn yr Alban yn enghraifft ddefnyddiol o'r ffordd y gellir datblygu cyfleoedd cyflogaeth mewn partneriaeth â'r sector addysg uwch.

Y mesurau cyngor a chymorth sydd eu hangen i wella effeithlonrwydd ynni yng Nghymru (er enghraifft ym maes tai, busnes a'r sector cyhoeddus), a'r gofynion sgiliau cysylltiedig a'r manteision economaidd posibl.

Mae adroddiad diweddar gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR) wedi amlygu pedwar math eang o brinderau sgiliau:

- i. Prinderau sgiliau penodol sy'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol - yn aml ym meysydd peirianeg sifil a strwythurol
- ii. Gofynion hyfforddiant ychwanegol yn y gweithlu presennol e.e. trydanwyr a phlymwyr fel y gallant osod technolegau ynni adnewyddadwy
- iii. Sgiliau rheoli ac arwain cyffredinol sydd eu hangen i hwyluso'r broses o newid i fod yn economi carbon isel
- iv. Sgiliau gwyrdd cyffredinol - y ddealltwriaeth eang o'r newidiadau sydd eu hangen ar y gweithlu ehangach

Mae cysylltiad parhaus y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy â'r rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno Cynllun Gofodol Cymru wedi amlygu gwendidau mewn sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg; sef sail sgiliau hanfodol er mwyn i Gymru ffynnu'n gymdeithasol ac yn economaidd yn y dyfodol, a chyflawni ei pholisi o leihau carbon 3% y flwyddyn.

Mae'r datblygiadau ym 'mharth carbon isel' Blaenau'r Cymoedd, ar y cyd â chanolfan hyfforddi gysylltiedig Nwy Prydain yn Nhredeg, yn enghraifft dda o'r ffordd y gall y sector cyhoeddus a'r sector preifat gydweithio i greu cyflenwad a galw am sgiliau o'r fath.

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi gwaith Canolfan Carbon Isel/Di-garbon Cymru sy'n ystyried yr anghenion o ran sgiliau a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sicrhau amgylchedd adeiledig carbon isel. Mae'n rhaid i sefydliadau proffesiynol fod yn rhan hanfodol o'r broses gydweithredu hon, gan eu hannog i gynnwys cynaliadwyedd yn eu prosesau achredu, gan atgyfnerthu sail sgiliau eu haelodau ymhellach. Mae cofrestr penseiri cynaliadwy Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru yn enghraifft o'r fath.

Effaith agweddau defnyddwyr ar boblogrwydd cynhyrchion/technolegau gwyrdd

Mae adroddiadau'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy *I Will If You Will* a *Pe Bai Eich Cynnyrch Yn Gallu Siarad* yn nodi'r math o gyberthynas a ddylai fod rhwng llywodraeth, busnes a defnyddwyr er mwyn gwireddu patrymau defnyddio mwy cynaliadwy. O'u rhan hwy, mae gan lywodraeth a busnes ran i'w chwarae i alluogi defnyddwyr i ddefnyddio cynhyrchion a gwasanaethau mwy amgylcheddol a chymdeithasol gynaliadwy. Gellir cyflawni hyn, yn rhannol, drwy gamau gweithredu megis golygu dewisiadau, pan fydd darparwr y cynnyrch neu'r gwasanaeth yn dileu opsiynau i ddefnyddio cynhyrchion, neu gydrannau, o ansawdd is, gyda record amgylcheddol neu gymdeithasol wael^v.

Pan fydd rhwystrau rhag defnydd cynaliadwy o hyd, megis cost, gall llywodraeth a busnes roi dulliau pellach ar waith sy'n galluogi'r defnyddiwr, boed hynny drwy roi mwy o wybodaeth, megis labeli cynhyrchion sy'n nodi costau cylch bywyd/costau rhedeg cynhyrchion; rhoi benthyciadau cost isel i ddefnyddwyr domestig er mwyn iddynt brynu cynhyrchion mwy cynaliadwy (er enghraifft, cynllun benthyciadau'r Ymddiriedolaeth Garbon); neu ddefnyddio dulliau caffael yn y sector cyhoeddus i ysgogi arbedion maint ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy.

Graddau a llwyddiant mentrau caffael

Mae Caffael drwy Ymrwymiad Ymlaen Llaw^{vi} (FCP) yn fodel sy'n galluogi'r sector cyhoeddus i gaffael nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol newydd ac arloesol er mwyn ysgogi marchnadoedd. Mae'r model hwn yn golygu rhoi gwybodaeth ymlaen llaw i'r farchnad am anghenion yn y dyfodol o ran canlyniadau, cysylltu â darpar gyflenwyr yn gynnar ac - yn bwysicaf - cymhelliant Ymrwymiad Ymlaen Llaw: cytundeb i brynu cynnyrch neu wasanaeth nad yw'n bodoli ar hyn o bryd, ar ddyddiad penodedig yn y dyfodol, ar yr amod y gellir ei ddarparu yn unol â lefelau perfformiad a chostau y cytunwyd arnynt^{vii}.

ⁱ Prosperity Without Growth, Sustainable Development Commission, 2009, <http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=914>

ⁱⁱ Bargen Newydd Gynaliadwy, Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2009, <http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=928>

ⁱⁱⁱ Cymru Carbon Isel: Blaenoriaethau Rhanbarthol ar gyfer Gweithredu, Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2009, http://www.sd-commission.org.uk/publications/downloads/SDC_LowCarbonRegions_report_welsh.pdf

^{iv} Swyddi Gwyrdd i Gymru - Ymateb i'r Ymgynghoriad gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru, 2009, <http://wales.gov.uk/docs/det/consultation/090918greenresponsesprt4.pdf>

^v Pe bai eich cynnyrch yn gallu siarad, Map ffordd ar gyfer cynnyrch i yrru cynaliadwyedd, Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2007

http://www.sd-commission.org.uk/publications/downloads/SDC_productroadmap_welsh_e.pdf

^{vi} http://www.dius.gov.uk/innovation/procurement_policy/forward_commitment_procurement

^{vii} Y Comisiwn ar Farchnadoedd Amgylcheddol a Pherfformiad Economaidd: Adroddiad Tachwedd 2007, tudalen 43, DEFRA